



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Ynni Adnewyddadwy, Effeithiolrwydd Ynni ac Allyriadau Tanwydd Moduron (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2021

DYDDIAD 26 Mawrth 2021

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Ynni Adnewyddadwy, Effeithiolrwydd Ynni ac Allyriadau Tanwydd Moduron (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2021

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig ganlynol sy'n deillio o'r UE:

- Gorchymyn Rhwymedigaethau Tanwydd Trafnidiaeth Adnewyddadwy 2007;
- Rheoliadau Hyrwyddo Defnyddio Ynni o Ffynonellau Adnewyddadwy 2011;
- Rheoliadau Adrodd ar Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o Danwydd Moduron (Cerbydau Ffyrdd a Pheiriannau Symudol) 2012;
- Rheoliadau Effeithiolrwydd Ynni (Adnewyddu Adeiladau ac Adrodd) 2014; a
- Rheoliadau Effeithiolrwydd Ynni (Annog, Asesu a Gwybodaeth) 2014.

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw Rheoliadau 2021 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Diben y diwygiadau

O 1 Ionawr 2021, nid yw Cyfarwyddeb 2009/28/EC ynghylch hyrwyddo defnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy, Cyfarwyddeb 2012/27/EU ynghylch defnyddio ynni'n effeithiol a Chyfarwyddeb 98/70/EC ynghylch ansawdd tanwydd petrol a diesel, bellach yn gymwys i'r DU.

Maer Rheoliadau 2021 yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Cyfarwyddebau hyn ym maes ynni adnewyddadwy, effeithiolrwydd ynni ac allyriadau tanwydd moduron i unioni diffygion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac i gofnodi'r newid i'r DU i berthynas newydd â'r UE fel gwlad annibynnol sofran.

Mae Rheoliadau 2021 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/pvElks7W/ProposedNegative/>

Pam y cafodd cydsyniad ei roi

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn ac nid ydynt yn newid polisi. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfnod Pontio Ewrop ym mis Mai.